

# cta

community transport  
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



## Gweithredu Cymunedol Machynlleth a'r Cylch

Ffurfiwyd Gweithredu Cymunedol Machynlleth a'r Cylch, sy'n cael ei adnabod fel CAMAD, ym 1998 i ddarparu cymorth cymunedol yr oedd mawr ei angen, ac i weithredu fel canolbwynt ar gyfer gwirfoddoli yn yr ardal. "Rydyn ni'n gweld ein hunain fel mudiad sydd wedi'i leoli mewn cymuned sy'n llawn hanes, traddodiad a gwytnwch," meddai Linda Hayward, Rheolwr CAMAD. "Mae gan bobl leol gymeriad cryf ac agwedd gefnogol sy'n golygu ein bod ni'n cael budd aruthrol o'u hawydd i wirfoddoli a 'rhoi rhywbeth yn ôl' i'r gymuned lle cawsant eu magu."

Mae CAMAD wedi'i leoli ym Machynlleth ac mae'n gweithio dros ardal Dyffryn Dyfi ym Mhowys, sef sir fwyaf gwledig Cymru sydd â'r boblogaeth fwyaf gwasgareddig. "Er ein bod yn ffodus bod golygfeydd harddaf cefn gwlad ar garreg ein drws," meddai Linda, "mae nifer o heriau ynghlwm â byw yng nghefn gwlad. Un her yw bod y boblogaeth yn heneiddio gyda 26% o'n cymuned dros 65 oed, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 18%, a'r rhan fwyaf ohonynt yn byw ar eu pennau eu hunain. Ein nod yw lleihau unigrwydd a helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth, eu hiechyd a'u lles."

**"I bob un o'n teithwyr, mae byw yng nghefn gwlad Powys yn fendith mewn sawl ffordd," meddai Linda, "Ond weithiau mae mynd o un lle i'r llall yn gallu bod yn anodd i bobl sy'n byw yn un o'r pentrefi anghysbell lle mae gwasanaethau bysiau yn brin, neu os oes gan bobl broblemau symudedd sy'n golygu bod angen cludiant arbenigol. Gall cludiant wneud byd o wahaniaeth i helpu pobl i deimlo eu bod mewn cyswllt â'u cymuned leol ac i'w cadw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd."**

Mae CAMAD yn cynnal Cynllun Ceir Cymunedol Gwirfoddol lle mae gwirfoddolwyr yn defnyddio eu ceir eu hunain i gludo pobl i apwyntiadau ysbyty yn Lerpwl, profion llygaid arbenigol yn Aberystwyth, neu ar gyfer teithiau eraill fel ymweld â ffrindiau a pherthnasau. Codir tâl bach am y gwasanaeth hwn ond mae cymhorthdal yn mynd tuag at y costau ac yn sicrhau nad yw arian yn rhwystr i'r rhai sydd angen ei ddefnyddio. Maent hefyd yn cynnal cynllun Cerdyn Tacsï sy'n cynnig prisiau gostyngedig dros gyfnod o flwyddyn a theithio am bris gostyngedig i unrhyw un sydd â phroblemau symudedd. Mae'n achubiaeth i bobl nad oes ganddyn nhw eu cludiant eu hunain. Esboniodd un o'r defnyddwyr pa mor bwysig yw'r gwasanaeth. "Am ddim ond £9 y flwyddyn," meddai, "Gallaf deithio o gwmpas, mynd i'r siopau, neu wneud rhywbeth mor syml â gweld fy ffrindiau. Mae'n gynllun gwych."

“Er mai elusen fach yw CAMAD, mae ganddi galon fawr,” meddai Linda, “ac rydyn ni’n gwneud i bob ceiniog gyfrif ac yn cyflawni llawer gyda’r hyn sydd gyda ni diolch i ymrwymiad a haelfrydedd y staff, yr ymddiriedolwyr a’r gwirfoddolwyr, yn ogystal â chymorth cydweithwyr mewn mudiadau eraill a’n llu o gefnogwyr sydd yn helpu i hyrwyddo ein gwaith ac annog pobl i ddefnyddio ein gwasanaethau. Cefnogi ein gwirfoddolwyr yw’r feddylfryd sydd ganddon ni yn hytrach na’u gosod ar waith yn unig gan ein bod am iddynt gael y gorau o’u gwaith yn gwirfoddoli a dod yn rhan annatod o deulu CAMAD.”

Gyda chymorth prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru, a helpodd CAMAD i lunio achos dros gael cefnogaeth, gan fwrw golwg o’r tu allan ar sut i hyrwyddo’r mudiad, sicrhodd Linda a’i thîm £7,500 gan Sefydliad Garfield Weston. “Mae’r cyllid hwn yn hynod ddefnyddiol,” meddai Linda “oherwydd rydyn ni’n gallu ei wario fel y dymunwn. Fe gyrhaeddodd wrth i ni ddechrau cefnogi pobl trwy gyfnod cyfyngiadau COVID-19, felly roedd yr incwm ychwanegol yn hynod ddefnyddiol ar yr adeg anodd honno.”

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i’r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn [cta.uk/cciw-cymraeg](http://cta.uk/cciw-cymraeg).**

